***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Paragraff 5. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 10

# YMCHWILIAD Y COMISIYNYDD I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Å SAFONAU ETC

## **RHAN 2**

## GWYBODAETH, DOGFENNAU A THYSTIOLAETH LAFAR

*Hysbysiadau tystiolaeth*

5 (1) Yn ystod ymchwiliad, caiff y Comisiynydd roi hysbysiad tystiolaeth i berson (A).

(2) Yn y Mesur hwn, ystyr "hysbysiad tystiolaeth" yw hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i A wneud un neu ragor o'r canlynol—

(a) darparu gwybodaeth sydd ym meddiant A;

(b) cyflwyno dogfennau sydd ym meddiant A;

(c) rhoi tystiolaeth lafar.

(3) Caiff hysbysiad o dan y paragraff hwn gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) y ffurf ar wybodaeth, ar ddogfennau neu ar dystiolaeth;

(b) amseru unrhyw beth sydd i'w wneud yn unol â'r hysbysiad.

(4) Ni chaniateir i hysbysiad o dan y paragraff hwn ei gwneud yn ofynnol i A wneud unrhyw beth na allai A gael ei orfodi i'w wneud mewn achos gerbron yr Uchel Lys.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan y paragraff hwn hysbysu A—

(a) beth fydd y canlyniadau os na fydd A yn cydymffurfio â'r hysbysiad; a

(b) am yr hawl i apelio o dan baragraff 9.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 10 para. 5 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** Atod. 10 para. 5 mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(h)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Paragraff 5.